

## CYNGOR BRO LLANLLWNI.

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 09 Medi am 8.00yh.

### AGENDA

Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynwyd cydymdeimlad ag Andrew Thomas a'r teulu ar farwolaeth ei dad. Dymunwyd gwellhad buan i Eric Davies yn dilyn llawdriniaeth. Braff oedd gweld pobl ifanc y gymuned yn llwyddianus mewn marchnadoedd tu allan i Gymru yn ddiweddar sef teulu Beilibedw.

### PLISMONA

Croesawyd Eleri Morgan i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Trafodwyd yr ardal yn gyffredinol o ran diogelwch.

### Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd angen ffensio.

Yn dilyn sesiwn syniadau a gafodd ei gynnal yn y parc ar 08/08/2019, cyflwynwyd syniadau ar ffurf lluniau gan Fferm Wynt Brechfa ar sut i ddatblygu'r cae chwarae i'r dyfodol.

Penderfynwyd ar y canlynol:

- Cysylltu â Western Power am symud y postyn.
- Cysylltu â Daryl Thomas i dderbyn cyngor a cynnal cyfarfod a'r y cae chwarae am y canlynol:
  - **Cyflenwad trydan i'r cae.**
  - **Cyflenwad Dŵr.**
  - **Tanc Caerffosiaeth.**
  - **Pris am gyflwyno cais cynllunio i Gyngor Sir Caerfyrddin.**

### GWEFAN LLANLLWNI

Roedd adroddiad o gyfarfod mis Gorffennaf ar y wefan ac wedi ymddangos yn 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader'.

### CYNGOR TREF A CHYMUNED – PROSIECT GOLEUADAU CYMUNEDOL

Prosiect yn cynnig newid Goleuadau Cymunedol i Unedau LED. Penderfynwyd derbyn y cynnig gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

### LLWYBR CYHOEDDUS EGLWYS LLANLLWNI - PONTLLWNI

Bydd y Clerc yn anfon llythyr i Gyngor Sir Caerfyrddin i ddatgan pryder am gyflwr y llwybr cyhoeddus yma a gofyn a fyddai'n bosib codi arwyddion.

### EISTEDDFOD YR URDD LLANYMDDYFRI 2021

Gwybodaeth bod pwyllgor wedi ei sefydlu yn Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni i godi arian at yr eisteddfod.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 11 Tachwedd 2019 am 8.00yh.

